


Fersiwn		CY3
Dyddiad Diwethaf	Diwygio	Chwefror 2020



Polisi Ceisiadau am Ailraddio



RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Polisi Ceisiadau am Ailraddio
Adran	Adnoddau Dynol
Ffôn	01443 444502 01443 444503
Dyddiad Cychwynol Cyflwyno'r Polisi	Mehefin 2011
Swyddog Adolygu	Grŵp Diwygio Polisiâu
Dyddiad Diwygio	Medi 2016
Dyddiad yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Medi 2016
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Rhagfyr 2010	Alison Cade, Peter Cushion, Richard Evans
Mehefin 2011	Alison Cade, Peter Cushion, Richard Evans
Medi 2016	Grŵp Diwygio Polisiâu
Chwefror 2020	Grŵp Safonau'r Gymraeg AD
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	Medi 2016
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Cabinet	

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.

CYNNWYS

Policy Statement	1
Regrading Application Criteria.....	1
Regrading - Formal Review Stage	1
Regrading Review Panel.....	2
Regrading Review Panel Decision	3
Contract Of Employment & Job Description.....	3
Appendix 1	4
Application For A Regrading Review.....	4-7
Appendix 2	8
Regradings Review Panel Procedure.....	8

1. **DATGANIAD POLISI**

Mae'r Cyngor wedi cytuno, ar y cyd â'r undebau llafur, i weithredu Polisi Ceisiadau am Ailraddio.

Er y gall y dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â swydd amrywio dros amser, mae'r Cyngor a'r Undebau Llafur, ill dau, yn cytuno na fydd hyn o reidrwydd yn arwain at newid sylweddol yn lefel y cyfrifoldebau, neu yng nghymeriad cyffredinol y dyletswyddau perthnasol dan sylw. Peth cyffredin yw i'r fath amrywiadau ddigwydd, a dydyn nhw ddim yn rhoi unrhyw gyfiawnhad dros ailraddio swydd.

Serch hynny, mewn achosion lle bu newid sylweddol yn nyletswyddau a chyfrifoldebau swydd benodol, a bod y raddfa heb gael ei newid i adlewyrchu hyn, a bod y gweithiwr dan sylw yn anfodlon ar y penderfyniad o ran graddfa'r swydd honno, bydd modd gwneud cais am adolygiad gan ddefnyddio'r weithdrefn ganlynol.

2. **MEINI PRAWF AR GYFER CYFLWYNO CAIS AM AILRADDIO**

Rhaid i bob cais gynnwys tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd dan sylw, cyn mynd ymlaen i'r cam Panel Adolygu.

3. **AILRADDIO - CAM ADOLYGU FFURFIOL**

Os bydd unrhyw weithwyr yn dymuno gwneud cais am ailraddio swydd, rhaid iddyn nhw lenwi'r ffurflen gais yn Atodiad 1, gan nodi a ydyn nhw'n gwneud cais fel unigolyn, neu fel grŵp.

Rhaid cyflwyno pob cais i'r Cyfarwyddwr / Cyfarwyddwr Gwasanaeth priodol, yn ôl dewis iaith yr unigolyn / grŵp, gan gadw at y cyfnodau canlynol.

Bydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn rhwng:

- 1 Hydref - 31 Mawrth yn cael eu prosesu erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn
- 1 Ebrill - 30 Medi yn cael eu prosesu erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn

Os yw'r Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Gwasanaeth **yn derbyn** i'r gweithiwr neu'r gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, bydd e'n/hi'n cadarnhau'r ffaith yma drwy gydlofnodi'r ffurflen, a'i chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a fydd yn trefnu i'r swydd ddilyn y broses werthuso addas. Yn rhan o'r broses werthuso, gall Dadansoddwr/Dadansoddwyr Swyddi y Cyngor benderfynu cwrdd â'r gweithiwr/gweithwyr a'r Cyfarwyddwr perthnasol i gael eglurhad ar unrhyw bwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen a gafodd ei chyflwyno.

Bydd canlyniad y Cam Adolygiad Ffurfiol fel hyn:

- i) Os penderfynir, yn sgil y broses werthuso, y **dylai cyflog y swydd gynyddu**, bydd y cynnydd yn weithredol o ddyddiad cyflwyno'r cais. (Nodwch: chaiff taliadau'r cynnydd mo'u hôl-ddyddio i'r cyfnod cyn dyddiad cyflwyno'r cais).
- ii) Os penderfynir, yn sgil y broses werthuso, **na ddylai cyflog y swydd gynyddu**, fe gaiff hi ei hystyried fod y mater wedi'i gau, a fydd dim adolygiad arall am gyfnod o 12 mis.
- iii) Os **nad** yw'r Cyfarwyddwr / Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn derbyn i'r gweithiwr neu'r gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, bydd e'n/hi'n cadarnhau'r ffaith yma drwy gydlofnodi'r ffurflen, a'i chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a fydd yn trefnu i'r swydd gael ei chyflwyno i'r Panel Adolygu Ceisiadau am Ailraddio.

4. PANEL ADOLYGU CEISIADAU AM AILRADDIO

Bydd y Panel yn clywed pob achos o fewn tri mis i ddyddiad cyflwyno'r cais am ailraddio, yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u nodi yn y weithdrefn hon.

Bydd y Panel yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, neu, os gweithiwr Adnoddau Dynol yw'r ymgeisydd, gan gynrychiolydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r holl bartïon sy'n bresennol, a chaiff y cadeirydd ddim bwrw pleidlais. Ar y Panel hefyd, bydd dau Gyfarwyddwr Gwasanaeth/Pennaeth Gwasanaeth sydd ddim yn gysylltiedig â maes gwasanaeth yr ymgeisydd/ymgeiswyr, a chynrychiolydd undeb llafur.

Rhaid i ddatganiad achos pob un o'r holl bartïon ddod i law'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol o leiaf 14 diwrnod cyn cyfarfod y Panel Adolygu: y Cyfarwyddwr fydd yn trefnu rhannu'r dogfennau yma rhwng y gwahanol bartïon. Bydd yr agenda ar gyfer cyfarfod y Panel, ynghyd â'r holl ddogfennau perthnasol, yn cael eu cylchredeg i bob un o'r holl bartïon o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Panel.

Pan fo cynrychiolydd undeb llafur yn cyflwyno'r achos ar ran gweithiwr, bydd y gweithiwr dan sylw yn cael caniatâd i fod yn bresennol. Mae'r weithdrefn ar gyfer clywed y cais am ailraddio i'w gweld yn Atodiad 2.

Mae angen parchu dewis iaith y gweithiwr yn ystod y broses yma. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig. Os yw gweithiwr yn dymuno i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg, dylai roi gwybod o leiaf 5 diwrnod cyn y gwrandawriad. Os na fydd yn rhoi gwybod, bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn Saesneg.

Nodwch – Chaiff tystion mo'u galw ar unrhyw gam o'r broses.

5. **PENDERFYNIAD Y PANEL ADOLYGU**

Bydd aelodau o'r Panel yn ystyried yr achos yn breifat, ac yn rhoi gwybod i bob parti o fewn 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad, a hynny yn iaith o ddewis y gweithiwr/gweithwyr - Cymraeg neu Saesneg.

Os bydd y Panel yn derbyn i'r gweithiwr neu'r gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, bydd yn cadarnhau'r ffaith yma ac yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol drefnu i'r swydd ddilyn y broses werthuso addas. Bydd canlyniad y cam adolygiad ffurfiol fel sydd wedi'i nodi ym mhwynt 3 uchod.

Caiff y cais ei ystyried wedyn gan ddefnyddio'r weithdrefn sydd wedi'i nodi ym mhwynt 3 uchod.

Os peidio â chytuno â'r cais am ailraddio yw'r penderfyniad, caiff y gweithiwr wybod na fu'r apêl yn llwyddiannus.

Mae hi wedi cael ei chytuno na chaiff camau gweithredu pellach eu cymryd y tu allan i'r weithdrefn yma mewn perthynas ag adolygu ceisiadau.

Chaiff apêl cam adolygiad ffurfiol arall mo'i chyflwyno o fewn y cyfnod o 12 mis yn dilyn dyddiad rhoi gwybod am yr apêl aflwyddiannus.

6. **CONTRACT CYFLOGAETH A DISGRIFIAD SWYDD**

Bydd contract cyflogaeth newydd a disgrifiad swydd diwygiedig yn cael eu rhoi i unrhyw weithiwr lle mae newidiadau o ganlyniad i gais ailraddio, a hynny yn iaith o ddewis y gweithiwr/gweithwyr - Cymraeg neu Saesneg.

ATODIAD 1

FFURFLEN GAIS AM ADOLYGIAD AILRADDIO

Dylai pob cais gael ei gyflwyno i'ch Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

MANYLION PERSONOL

ENW: _____

CYFEIRIAD: _____

AELOD O UNDEB LLAFUR? YDW/NAC YDW

OS YDYCH CHI, PA UNDEB LLAFUR?

RHIF CYFLOGRES:

MANYLION Y SWYDD

TEITL SWYDD:

GRADD: _____ GWASANAETH: _____

CYFADRAN: _____ RHEOLWR LLINELL: _____

MANYLION Y CAIS

Nodwch dystiolaeth fras o newid sylweddol yn y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r swydd (cewch chi atodi rhagor o wybodaeth os oes angen).

MANYLION Y CAIS - PARHAD:

Bydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn rhwng:

1 Hydref a 31 Mawrth yn cael eu clywed erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.
1 Ebrill a 30 Medi yn cael eu clywed erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Mae'r cais yma'n cael ei gyflwyno fel:

- cais unigol am adolygiad ailraddio (*)
- cais grŵp am adolygiad ailraddio - dyma'r aelodau staff ychwanegol sy'n cyflwyno'r cais (*)

(*) – ticiwch un blwch yn unig.

ENWAU'R STAFF YCHWANEGOL:

LLOFNOD: _____

ENW (priflythrennau): _____

DYDDIAD : _____

CADARNHAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH

- Rwy'n cadarnhau fy mod **yn cytuno** i'r gweithiwr/gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ac rwy'n gwneud cais am werthusiad ffurfiol (*).

- Rwy'n cadarnhau **nad ydw i'n cytuno** i'r gweithiwr/gweithwyr roi tystiolaeth o newid sylweddol o ran y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau, ac nad ydw i'n gwneud cais am werthusiad ffurfiol (*).

(*) – *ticiwch un blwch yn unig.*

LLOFNOD:

ENW (priflythrennau):

TEITL SWYDD:

GWASANAETH: _____

CYFADRAN:

DYDDIAD:

ATODIAD 2

GWEITHDREFN Y PANEL ADOLYGU CEISIADAU AM AILRADDIO

Mae angen parchu dewis iaith y gweithiwr/gweithwyr yn ystod y broses yma.

1. Y cynrychiolydd undeb llafur a/neu'r apelydd unigol fydd yn gwneud y cyflwyniad cychwynnol.
2. Caiff cwestiynau eu gofyn yn y lle cyntaf gan gynrychiolydd y rheolwyr, ac yna gan aelodau o'r Panel.
3. Wedyn, bydd y rheolwr yn datgan ei achos.
4. Caiff cynrychiolydd yr undeb llafur a/neu'r apelydd unigol ofyn cwestiynau, gydag aelodau o'r Panel yn dilyn.
5. Bydd cynrychiolydd yr undeb llafur neu'r apelydd unigol yn crynhoi ei achos.
6. Bydd cynrychiolydd y rheolwyr yn crynhoi ei achos.
7. Yna bydd pob parti yn gadael y cyfarfod.
8. Os oes angen galw parti yn ôl, rhaid i'r ddau barti ddychwelyd, waeth beth yw'r pwynt sydd angen ei gwestiynu.
9. Bydd y Panel yn penderfynu'r achos yn breifat, ac yn rhoi gwybod i bob parti, mewn ysgrifen, cyn pen 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad.